**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2022 am 4.30pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 oedd yn bresennol:-**

Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd L Ellis

**Swyddogion yn bresennol:-**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Ms K Trilloe - Rheolwr Dros Dro Diogelu Iechyd a Thrwyddedu

1 **Datgan Buddiant**
Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

2 **Ymddiheuriadau**
Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D. Williams a S. Bradwick.

3 **Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**
**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

4 **Cofnodion**
**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022 yn rhai cywir.

5 **Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005**
Cyflwynodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Clywodd yr Aelodau fod nifer yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro (TENs) wedi cynyddu'n rheolaidd ers llacio'r cyfyngiadau o ran y Coronafeirws, a bod nifer yr hysbysiadau wedi dyblu ers y cyfnod adrodd diwethaf. Mae'r cynnydd yma i'w weld o ganlyniad i achlysuron yn y gymuned ac achlysuron ym maes

chwaraeon. Yn ogystal â hynny, mae Jiwbilî'r Frenhines a'r dathliadau Balchder sydd ar y gweill wedi cyfrannu at y twf yma.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro a ddaeth i law yn dangos bod 37 o drwyddedau personol wedi'u cyflwyno. Mae hwn yn gam calonogol i'r diwydiant o ran tafarndai a lletygarwch. Ni chafodd unrhyw geisiadau eu herio yn ystod y cyfnod yma, ond cafodd 5 adolygiad eu cynnal. Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at y tabl ar dudalen 13 yn y pecyn adroddiad. O ran y Collier Arms ym Mhen-y-Waun, penderfynwyd bod angen dileu rhai amodau nad oedd yn berthnasol mwyach oddi ar y drwydded, yn ogystal ag ychwanegu rhai amodau penodol. Cafodd trwydded Chippy Plus ei dileu hefyd, ond mae'r ymgeisydd yn ystyried gwerthu'r eiddo/neu'n ystyried ildio ei drwydded. Mae'r adolygiad arall yn ymwneud â'r hen swyddfa bost yn y Porth, sy'n cael ei hadnabod fel clwb nos ‘Squares’. Mae deiliaid y Drwydded wedi cyflwyno apêl, a bwriedir iddo gael ei gynnal ar 1 Awst. Cafodd trwydded 'Food For You' ei dileu hefyd. Mae'r garfan ar ddeall bod y sefydliad yn bwriadu cyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad yma, ond does dim apêl wedi'i brosesu hyd yma. Cafodd trwydded 'Mountain Ash Stores' ei dileu hefyd ac mae'r cwmni wedi cyflwyno apêl i'r Llysoedd.

Ymhellach, nododd y swyddog fod un apêl wedi bod yn destun gwaith cyfryngu rhwng y safle a'r Awdurdodau Cyfrifol ers y cyfnod adrodd diwethaf, a bod hyn wedi osgoi'r angen am wrandawiad yn y Llys. Y ddwy apêl sy'n cael eu prosesu ar hyn o bryd yw 'Chippy Plus' a 'Squares', a'r dyddiad adolygu ar eu cyfer yw 1 Awst.

Cyfeiriodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr Aelodau at amlinelliad o'r arolygon safle a'r troseddau. Cafodd 97 o safleoedd eu harolygu ledled y Fwrdeistref, ac roedd angen cynnal ymweliadau dilynol â nifer ohonyn nhw. Bwriad yr ymweliadau yma oedd targedu safleoedd sydd ddim wedi cydymffurfio yn y gorffennol, yn ogystal ag ymchwilio i gwynion. Ychydig iawn o arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y pandemig ac felly roedd disgwyl y byddai'r arolygiadau'n dangos nad yw rhai safleoedd bellach yn cydymffurfio'n llawn ag amodau eu trwydded o bosib. Caiff hyn ei brofi'n gywir ar ôl i staff ganfod bod nifer o safleoedd ddim yn cydymffurfio'n llawn â'u trwyddedau. Roedd hyn am amrywiaeth o resymau, o gamgymeriadau bach i bryderon mwy sylweddol megis diffyg Teledu Cylch Cyfyng ac absenoldeb Goruchwylwyr Dynodedig. Mae hyn i'w weld yn y gostyngiad bychan yn lefel cyflawniad safleoedd a arolygwyd ers y cyfnod adrodd diwethaf. Y ffigur erbyn hyn yw **87%**.

Mae swyddogion yn gweithio'n barhaus gyda'r safleoedd yma i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio.

Mewn perthynas â nifer y cwynion a dderbyniwyd, clywodd yr Aelodau fod y diwydiant alcohol wedi parhau i deimlo effaith pandemig Covid, gyda nifer yr ymwelwyr yn parhau i fod yn is nag yr oedd cyn y pandemig. Mae rhai wedi aros ar gau. Y gobaith yw y bydd modd ailgydio mewn rhyw fath o normalrwydd yn y dyfodol, a fydd yn helpu'r diwydiant i ddod yn fwy cynaliadwy. Mae un enghraifft o effaith y pandemig i'w weld yn y Rhondda Hotel, sydd bellach ar werth oherwydd nad oedd deiliad y drwydded o'r farn bod y busnes yn hyfyw mwyach. Mae unigolyn newydd wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â throsglwyddo'r drwydded. Mae cyngor ac arweiniad wedi'u darparu. Mae Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) hefyd wedi profi effaith y pandemig. Amcangyfrifir bod 40,000 yn llai o unigolion cofrestredig yn y DU nag yr oedd cyn y pandemig, sydd yn ei dro yn effeithio ar y safleoedd sydd angen staff o'r fath.

Mae cwynion problematig parhaus yn dal i ddod i law ers y cyfnod adrodd blaenorol. Bu'n anodd ymchwilio'n drylwyr i'r rhain gan fod angen i swyddogion barhau i weithio o fewn cyfyngiadau Covid. Doedd dim modd monitro cwynion am sŵn ac ati mewn modd trylwyr oherwydd bod pobl yn teimlo'n nerfus am gael swyddogion yn eu cartrefi. Mae hyn yn gwbl ddealladwy, ond mae'n rhwystro swyddogion rhag cynorthwyo'r cyhoedd drwy asesu'r effaith yn gywir.

Mae'r ymgyrch 'Gofyn am Angela' neu 'Ask for Angela' (fel y codwyd mewn adroddiadau blaenorol) yn gweithio ac wedi cael ei roi ar waith yng nghanol tref Pontypridd. Mae unigolion wedi derbyn gofal yn ein safleoedd trwyddedig o ganlyniad i'r cynllun yma. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae hon yn ymgyrch gadarnhaol iawn i gynorthwyo unrhyw berson sy'n teimlo dan fygythiad tra'u bod nhw allan mewn tafarn/clwb. Mae rheolwyr y safleoedd yma bellach yn effro i hyn, ac yn hyfforddi staff i fod yn effro i'r cynllun hefyd. Mae pob achos o rywun yn manteisio ar y cynllun yma yn dangos ei fod yn llwyddiant, ac yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod cymorth i'w gael gan staff y safle. Er mai creu elw a llwyddo'n fasnachol yw prif nod y busnesau yma, mae hyn yn dangos eu bod nhw hefyd yn ystyried diogelwch y cyhoedd. Mae'r llwyddiant yma yn dod yn sgil gwaith da gan swyddogion mewn adrannau ac asiantaethau amrywiol, sydd wedi bod yn hyrwyddo materion o'r fath.

Fel y soniwyd yn yr adroddiad diwethaf, mae Cynllun Gwarchod Tafarndai Trefforest (Pubwatch) bellach wedi'i ehangu i gynnwys ardaloedd Rhydfelen a'r Ddraenen Wen. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus gan fod y cynllun blaenorol a oedd ar waith yn yr ardaloedd hyn yn ddiffygiol. Mae ehangu'r cynllun i gynnwys yr ardaloedd yma wedi adfywio rhywfaint ar y diwydiant lleol, sy'n newyddion gwych. Mae'r cynllun yn ffordd dda o alluogi deiliaid trwyddedau i rannu'u pryderon â'r adran drwyddedu a rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw broblemau lleol neu genedlaethol. Yn ogystal â hynny, mae'n fodd o annog deiliaid trwyddedau i gyfathrebu â'i gilydd.

Cafodd yr Aelodau hefyd eu hatgoffa fod James Button, sy'n arbenigwr ym maes trwyddedu, wedi darparu hyfforddiant i aelodau'r pwyllgor. Roedd y swyddog yn gobeithio bod yr hyfforddiant wedi rhoi cipolwg ar ofynion a disgwyliadau'r Aelodau a Swyddogion Trwyddedu.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n eistedd ar y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Achlysuron (ESAG). Mae'r grŵp yma o aelodau'n cwrdd â'r rheiny sy'n awyddus i drefnu achlysuron er mwyn canfod pa swyddogaethau Cyngor sydd eu hangen arnynt i sicrhau bod unrhyw achlysur yn cael ei gynnal mewn modd diogel a chyfreithlon. Mae hwn yn grŵp amlddisgyblaethol gydag aelodau o'r Awdurdod Lleol yn cynnwys Trwyddedu, Iechyd yr Amgylchedd, Parciau, Achlysuron a Phriffyrdd, ac asiantaethau allanol fel Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân De Cymru, a'r Gwasanaeth Ambiwlans ymhlith eraill. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae llawer o achlysuron wedi'u canslo neu eu gohirio, sy'n golygu bod y grŵp wedi bod yn arbennig o brysur eleni, yn enwedig oherwydd penwythnos y Jiwbilî! Yn y cyfnod cyn penwythnos y Jiwbilî ym mis Mehefin, roedd y grŵp yn cyfarfod bob pythefnos, ac yn siarad bron bob dydd i sicrhau bod yr achlysuron a drefnwyd ledled RhCT yn cael eu cynnal yn ddiogel. Mae'r gwaith yma'n cymryd llawer o amser, ond mae'n hanfodol er mwyn galluogi RhCT i gynnal achlysuron o bob maint yn llwyddiannus ac, yn bwysicach fyth, yn ddiogel.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Stryd Fawr Treorci wedi ennill gwobr pencampwr stryd fawr Prydain Fawr ym mis Ionawr 2020. Mae tafarn y Lion, sydd wedi'i lleoli ar y

stryd fawr, yn ganolbwynt i'r gymuned yma, ac ar 5 Gorffennaf trefnir ymweliad Brenhinol i nodi'r gamp. Mae hyn wedi'i ei ohirio ers 2020 oherwydd Covid. Bydd Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Charles yn ymweld â'r Lion, lle bydd hefyd yn cyfarfod â busnesau eraill. Mae tafarn y Lion wedi bod yn rhagweithiol iawn dros y blynyddoedd diwethaf ac yn parhau i wneud hynny. Sefydlodd y cwmni stondin gwerthu llysiau yn ei ardd gwrw, a oedd yn hynod lwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at agor 'Green Valley', sef siop ddiwastraff sydd hefyd yn gwerthu llysiau. Mae'r busnes hefyd wedi gosod blwch ffôn coch yn yr ardd a'i droi'n llyfrgell fach, gyda silffoedd yn llawn llyfrau at ddefnydd pawb. Yn ogystal â hynny, mae'n arddangos gwaith celf gan blant ysgol lleol. Mae hyn yn dangos bod modd i safleoedd trwyddedig gael effaith cadarnhaol iawn ar y gymuned leol pan maen nhw'n cael eu rheoli'n gyfrifol.

Mae achlysuron eraill yn y Fwrdeistref yn cynnwys Tyson Fury yn ymweld â Chanolfan Hamdden Rhondda Fach ar 15 Gorffennaf a 3 achlysur ar wahân ym Mharc Pontypridd (9 Gorffennaf), Parc Gelligaled (16 Gorffennaf) a Pharc Aberdâr (23 Gorffennaf) i ddathlu gweithwyr hanfodol a chyflwyno 'Rhyddid y Fwrdeistref' i rai ohonyn nhw. Bydd yr achlysuron yn darparu gweithgareddau llawn hwyl i blant ac yn cynnwys perfformiadau gan gorau a bandiau pres.

Yn ogystal â hynny, bydd Cwm Rhondda'n croesawu Gŵyl Gerddoriaeth Treorci ar 30 Gorffennaf, a bydd nifer o safleoedd trwyddedig yn cymryd rhan yn y dathliadau. Mae Gŵyl Fwyd a Diod Treorci ar 27 Awst hefyd, a bydd achlysuron Pride yn cael eu cynnal ar 16 Gorffennaf yn Flamingo Bar.

Mae tafarn Ivor Hael yn Llwynypia yn cynnig bargen lle mae modd talu am bris cynhwysion y pryd yn unig. Bydd y cynnig yma ar waith am y mis/chwe wythnos nesaf. Rhaid i bobl sy'n prynu'r prydau bwyd yma gael taleb o fanc bwyd. Wedyn, mae modd iddyn nhw gyfnewid y daleb gyda'r dafarn am brydau penodol. Mae'r safle wedi bod yn gweithio gyda'r Cyng Wendy Lewis ac eraill i roi trefn ar y logisteg. Dyma enghraifft gadarnhaol arall o safle trwyddedig sy'n ceisio cynorthwyo'r gymuned.

Clywodd yr Aelodau fod Cynllun Gwylio Tafarndai Canolbarth y Rhondda a'r Porth wedi ailddechrau yn dilyn y pandemig. Bydd y cynllun ar gyfer Cwm Rhondda Uchaf yn cychwyn yn fuan. Mae hyn eto'n dangos arwyddion calonogol o'r parodrwydd i symud ymlaen a chydweithio mewn partneriaethau.

O ran Cwynion, ymholiadau a chanllawiau, maent wedi parhau yn ystod y cyfnod yma, ac yn cynnwys:

- Cwmparc Legion – problemau gyda Goruchwyliwr Dynodedig absennol a arweiniodd at gau'r dafarn am gyfnod byr, mae hyn bellach wedi'i ddatrys ac mae Goruchwyliwr Dynodedig newydd wedi'i benodi.

- Gorsaf Betrol Pentre yn gwerthu alcohol y tu allan i'r oriau a ganiateir. Mae'r rheolwyr wedi cymryd camau cadarnhaol, yn ogystal rhoi'r gorau i werthu alcohol. Does dim angen cymryd camau pellach.

- Cyfarfod cynghori cyn agor tafarn yn Abercwmboi. Roedd y safle wedi bod ar gau ers nifer o flynyddoedd, ac yn cael ei adnewyddu, yn barod i ailagor yn ystod yr wythnosau nesaf. Safle o'r enw Cap Coch Inn.

- Ymwelodd swyddog â siop yn Aberaman (Blaengwawr Stores) yn dilyn

adroddiadau bod y Goruchwyliwr Dynodedig wedi marw. Roedd y Goruchwyliwr Dynodedig hefyd yn Ddeiliad Trwydded, ac roedd marw 3 wythnos ynghynt, felly heb ymyrraeth brydlon, byddai'r drwydded wedi dod i ben (mae terfyn o 28 diwrnod ar gyfer trosglwyddo trwydded ar ôl marwolaeth).

- Cyfarfod ar y cyd â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yng Nghlwm Cyn-filwyr Ffynnon Taf i drafod materion sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn parti i ddathlu pen-blwydd yn 18 oed. Mae'r clwb wedi cytuno i beidio â chynnal rhagor o bartïon pen-blwydd 18 oed.

- Ymweliad ag eiddo yng Nghwm-bach (Lleng Cwm-bach) yn dilyn adroddiadau bod yr eiddo'n masnachu tra'i fod wedi'i atal am beidio â thalu ffioedd blynyddol. Talwyd ffioedd blynyddol am ddwy flynedd yn brydlon, gan ganiatáu i'r safle ailagor.

- Rhoi cyngor cyn ymgeisio i fenter newydd yn Aberpennar (Neuadd y Dref).

- Ymweliad gorfodi ar y cyd gyda'r Heddlu a swyddogion Mewnfudo'r Swyddfa Gartref i siop yn Aberpennar yn dilyn gwerthiant dan oed ar y safle. Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymweliad wedi ysgogi adolygiad o'r safle.

- Mae tafarn y Ship Inn yn Llanilltud Faerdref wedi bod yn destun cwynion dros gyfnod hir o amser. Mae'r gwaith o ymchwilio i'r cwynion yma wedi cymryd amser sylweddol. Mae'r cwynion bellach yn cael eu hasesu gan y garfan Llygredd Amgylcheddol.

- Mae pryderon parhaus o ran staff sy'n gweithio ar ddrws un safle ym Mhontypridd. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod gyda chydweithwyr o fewn yr heddlu.

- Cwynion am sŵn o westy Lanelay Hall yn Nhonysguboriau.

- Yfed dan oed yn nhafarn y Bush, Cwm Clydach

- Clwb Rygbi Treorci, sawl mater wedi codi sy'n gofyn am gyfarfod rhwng y safle, yr heddlu a'r garfan drwyddedu.

- Spar, Pont-y-clun, pryderon mawr ynghylch rhedeg y busnes a Goruchwyliwr Dynodedig absennol o bosibl.

Rhoddwyd y newyddion da i’r Aelodau bod Maria Meek a Bethan Walters, yn rhan o ddull partneriaeth o ymdrin â Swyddogion Gorfodi Covid, wedi derbyn Gwobr Cydnabod Arbennig gan y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru. Mae hyn yn gwbl haeddiannol. Bu’r swyddogion yn gweithio’n ddiflino mewn partneriaeth â’r heddlu i roi cyngor a gorfodi deddfwriaeth yn ystod y pandemig. Nid oedd hyn bob amser yn cael ei groesawu gan rai safleoedd, ond llwyddodd y gwaith i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dywedodd y swyddog y dylai'r Aelodau nodi bod y garfan drwyddedu yn derbyn cwynion gan y cyhoedd drwy law cynghorwyr, sy'n galonogol ac i'w ddisgwyl.

Serch hynny, o ystyried bod cynghorwyr newydd ar y pwyllgor, mae'r adran drwyddedu yn dymuno nodi mai'r cam gorau fyddai i etholwyr gysylltu â'r adran yn uniongyrchol, gan nodi manylion penodol am y gŵyn a sut mae'n effeithio arnyn nhw'n bersonol, yn ogystal â darparu manylion cyswllt. Mae angen i swyddogion fynd ar drywydd cwynion, ac mae modd gwneud ymholiadau trylwyr heb y wybodaeth lawn a manylion cyswllt y sawl sy dan sylw. Rydyn ni'n argymell bod y cyhoedd yn anfon e-bost at adran.trwyddedau@rctcbc.gov.uk

O ran sbeicio, dywedwyd na fu unrhyw broblemau gyda CBSRhCT. Mae ymwybyddiaeth yn cael ei godi ym mhob rhan o'r diwydiant ac o fewn Heddlu De Cymru a'r Adran Drwyddedu. Mynychodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu gwrs dwy awr mewn perthynas ag Atal Sbeicio, darparwyd y cwrs gan SOS neu 'Stamp Out Spiking'. Cafodd wahoddiad i fynychu'r sesiwn gan Ardal Gwella Busnes Pontypridd (BID), yn rhan o fenter gwarchod tafarndai ym Mhontypridd. Mae hyn yn amlygu'r gwaith partneriaeth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni o fewn y maes trwyddedu.

O ran adennill dyledion, dywedwyd wrth yr Aelodau fod y garfan yn mynd ar drywydd y taliadau.

O dan y Ddeddf Gamblo, cafodd Aelodau eu cyfeirio at y tabl ar dudalen 20 yn y pecyn adroddiad. O ran adennill ffioedd blynyddol, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai swyddog yn mynychu gweminar ddiwedd mis Gorffennaf sy'n trafod Dyfodol Gamblo yn y DU: Diwygio Deddfwriaeth i Atal Cenhedlaeth newydd o Gamblwyr Problemus. Bydd unrhyw ychwanegiadau newydd i ddeddfwriaeth a phryderon yn cael eu hamlygu a'u bwydo'n ôl i'r garfan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am y diweddariad a manteisiodd ar y cyfle i ddweud bod gwall technegol wedi bod gyda'r graffig ar y pecyn ac y bydd y pecyn llawn yn cael ei anfon yfory.

Holodd Aelod arall hefyd a allai barhau i eistedd ar gyfarfodydd ar gyfer Neuadd Les Cwm Faerdref a dywedwyd wrtho nad oedd unrhyw wrthdaro yn hynny o beth.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ddiolch i'r Garfan Drwyddedu am ei gwaith caled parhaus, ac felly **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Trwyddedu 2003** a;

2. Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Gamblo 2005.**

**6 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**7 Trwyddedau a Chofrestriadau a roddwyd o dan ddarpariaeth Pwerau Dirprwyedig yn ystod y cyfnod:**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion

trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 17 Ionawr a 26 Mehefin i'r Aelodau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.00pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**